

Disgrifiad Swydd: Swyddog Hyfforddiant a Chyfathrebu

| | |
|-------------------------|--|
| Teitl y Swydd: | Swyddog Hyfforddiant a Chyfathrebu |
| Cyflog: | Tua £23,000 – 25,000 pro rata |
| Hyd y cytundeb: | Cytundeb blwyddyn yn y lle cyntaf (cyfnod mamolaeth) |
| Oriau: | 30 Awr yr wythnos / gweithio'n hyblyg |
| Dyddiad cychwyn: | Ionawr 2022 |
| Lleoliad: | Gweithio o gartref/ yn swyddfa Caerdydd |
| Rheolwr Llinell: | Prif Ymgynghorydd |

Gwaith Cynnal Cymru

Cynnal Cymru – Sustain Wales yw elusen datblygu cynaliadwy mwyaf blaenllaw Cymru. 'Rydym yn darparu cyngor, hyfforddiant a chysylltiadau i helpu sefydliadau wneud penderfyniadau mentrus a fydd yn arwain at ddyfodol tecach, mwy diogel.

Gan gydweithio gyda'n aelodau ar draws y sector, a'n rhwydwaith ehangach, 'rydym yn llunio'r agenda ac yn adnabod cyfleoedd am weithredu ar ddatblygu cynaliadwy, yn cefnogi'n haelodau a'n cymunedau ymarfer gyda'i agendâu cynaliadwyedd, ac yn rhannu gwybodaeth drwy wneud gwaith hyfforddi ac ymgynghori. Ni yw partner swyddogol [Prosiect Llythrennedd Carbon](#) yng Nghymru a [Chorff Achredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i Gymru](#).

Gyda'r cynnydd yn y galw am ein hyfforddiant arlein ac wyneb-yn-wyneb ynghylch newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd, hoffem ni gyflogi rhywun sy'n gallu'n helpu ni gydgysylltu a chyflwyno'r gwaith, yn ogystal â chefnogi ei dwf drwy gyfathrebu, marchnata a mesur effaith yn effeithiol.

Y Rôl

Fel Swyddog Hyfforddiant a Chyfathrebu byddwch yn cefnogi cyflwyniad, a chadw cyswllt ynghylch, hyfforddiant (e.e. [Llythrennedd Carbon](#) a [Nabod Natur](#)) drwy drefnu, gweinyddu a chydgysylltu'r cyrsiau, a gwerthuso adborth yn eu cylchmewn ffordd effeithiol.

Yn adrodd yn ôl i'r Prif Hyfforddwr, byddwch chi'n rhan o dîm sy'n cyflwyno hyfforddiant cynaliadwyedd er mwyn helpu sefydliadau ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithredu ynghylch newid yn yr hinsawdd. Byddwch yn unigolyn trefnus dros ben sy'n meddu ar sgiliau digidol da a'r gallu i greu deunydd marchnata atyniadol a fydd yn helpu hyrwyddo ein cyfleoedd am hyfforddiant a dysgu proffesiynol.

Gan weithio gyda'r tîm, byddwch yn datblygu deunyddiau cyfathrebu a marchnata effeithiol i hysbysebu hyfforddiant ac helpu tyfu ein gwasanaethau hyfforddi. Byddwch hefyd yn casglu ac yn dadansoddi adborth a data hyfforddiant er mwyn mesur effaith a sicrhau bod ein gwasanaethau hyfforddi yn gwella yn barhaus.

Cyfrifoldebau Allweddol

- Ymateb i ymholiadau ynghylch hyfforddiant gan gleientiaid, aelodau, rhanddeiliaid a'r cyfryngau.
- Amserlenni a sefydlu cyrsiau hyfforddiant cyson drwy'r System Rheoli Dysgu / Wordpress.
- Cynnal cofnod cywir o'r cleientiaid a'r hyfforddiant a ddarparwyd.
- Cadw cyswllt gyda dysgwyr i gasglu adborth a data ynghylch monitro a gwerthuso effaith.
- Rheoli anfonebu a thaliadau arlein am hyfforddiant.
- Cyfrannu at adroddiadau a dadansoddi ysgrifenedig ynghylch hyfforddiant Cynnal Cymru.
- Cefnogi cydweithwyr i adnabod a datblygu cyfleoedd newydd am hyfforddiant.
- Arwain ar y gweithgareddau marchnata a chyfathrebu sy'n gysylltiedig ag hyfforddiant.

Manyleb y Person

Hanfodol

- Gallu trefniadol ardderchog, gan gynnwys rheoli amser a gofal am fanylder.
- Sgiliau cyfathrebu hyderus a chllir, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Profiad o drefnu a rheoli digwyddiadau neu hyfforddiant arlein.
- Profiad o ddefnyddio Wordpress neu llwyfannau tebyg.
- Profiad o wneud taliadau digidol (e.e. WooCommerce a Stripe), ac arfau rheoli digwyddiadau a chyfarfodydd (e.e. Eventbrite).
- Profiad o ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu a chynadleda megis Microsoft Teams, Zoom, Jamboard, Miro.
- Profiad o greu deunydd cyfathrebu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyron.
- Profiad o gynnal gwerthusiadau, casglu adborth a dadansoddi canlyniadau.
- Sgiliau gweinyddol a llythrennedd TG ardderchog, gan gynnwys gwybodaeth am raglenni MS office a golygu / diweddarau cynnwys y wefan a'r gronfa ddata.
- Yn byw yng Nghymru.

Dymunol

- Sgiliau iaith Gymraeg (sgiliau da, ar lafar ac yn ysgrifenedig).
- Profiad o ddefnyddio System Rheoli Dysgu LMS.
- Profiad o ddefnyddio pecynnau rheoli cysylltiadau cwsmeriaid CRM e.e. Hubspot
- Arbenigedd ym maes hyfforddiant a'r gallu i greu, cynllunio a chyflwyno cyrsiau, gweithdai a gweminarau byw ac a recordiwyd.
- Agwedd entrepreneuriaidd a'r awydd i ddod o hyd i atebion a fydd yn datrys heriau cymunedol a / neu sefydliadaol ynghylch datgarboneiddio ac adfer yr amgylchedd.
- Bod yn gyfarwydd â deddfwriaeth gynaliadwy a mentrau gwirfoddol yng Nghymru a'r DU.

Sut i wneud cais

Anfonwch eich cais, os gwelwch yn dda, at jobs@cynnalcyrmu.com erbyn **Dydd Sul, Tachwedd 28, 2021**, gan gynnwys eich:

- Ebst esboniadol
- Ffurflen gais
- Ffurflen cyfle cyfartal

A wnewch chi nodi nad ydym yn derbyn CV'au.

Cynhelir cyfweiliadau am y swydd yn gynnar ym mis Rhagfyr.

Gwybodaeth Bellach

Arferion gwaith

Gan gydnabod gwerth creu cydbwysedd rhwng byd gwaith a bywyd y cartref, 'rydym yn gwneud ein gorau i ddarparu gweithio hyblyg. 'Rydym yn gweithio wythnos waith o hyd at bedwar diwrnod (30 awr) yr wythnos.

'Rydym yn awyddus i gyrraedd cronfa amrywiol o ymgeiswyr ac yn hapus i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol y bydd angen ar gyflogeion posib er mwyn eu galluogi i lwyddo.

- Wythnos waith pedwar diwrnod yr wythnos (dydd Llun – dydd Iau fel arfer)
- Gweithio hyblyg
- Gweithio hybrid

Mae ein swyddfa wedi'i lleoli yng nghanol Caerdydd ac yn hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Ar hyn o bryd, er mwyn ymateb i'r canllawiau Covid cyfredol, 'rydym yn gweithredu model waith hybrid, gyda'n staff yn gweithio rhwng y swyddfa a'r cartref.

Cyfweiliadau

Mae Cynnal Cymru yn gweithredu system recriwtio ddall.

Cysylltwch â ni os am drafod unrhyw beth sydd ei angen arnoch chi er mwyn cael mynediad at, a chymryd rhan yn, y broses gyfweld neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am y broses ymgeisio.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad am y swydd, a wnewch chi ein hysbysu o unrhyw gostau gofal y bydd gennych, fel ein bod yn gallu eu had-dalu.

Am wybodaeth bellach ynghylch y rôl hon cysylltwch â Lynsey Jackson, Rheolwr Rhaglen, yn lynsey@cynnalcyrmru.com os gwelwch yn dda.

Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Cynnal Cymru wedi'i ymrwymo i ddarparu cyfle cyfartal am gyflogaeth ar draws ei holl rhaglenni a phenderfyniadau cyflogi. O ran ymateb i her newid yn yr hinsawdd ac heriau cynaliadwyedd eraill 'rydym yn cydnabod bod cael mudiad amrywiol a chynhwysol o'r pwys mwyaf, a bod rhaid sicrhau bod y rhai hynny yr effeithir ar fwyaf – yn enwedig y rhai hynny sydd wedi'u heithrio yn y gorffennol – wrth galon y mudiad dros newid.

'Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau bod ein swyddi yn hygyrch i bawb, waeth beth yw eu hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, oedran, anabled, rhyw a neilltuwyd, cyfeiriadedd neu hunaniaeth ryweddol, cyfeiriadedd neu hunaniaeth rhywiol, crefydd neu gredo, statws cyn-filwr, a statws priodasol neu rieniol. 'Rydym yn ymdrechu i recriwtio aelodau tîm o'r cymunedau hynny y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar fwyaf, neu sydd wedi dioddef effaith mathau eraill o anghyfiawnder amgylcheddol, cyndeithasol ac economaidd. Felly, 'rydym yn annog, yn gryf, ceisiadau gan bobl groenliw, merched, pobl LHDTG+ ac aelodau o gymunedau ymylol.

Cynaliadwyedd

'Rydym yn disgwyl y byddwch yn gwneud eich dyletswyddau gwaith mewn ffordd gynaliadwy, gan achosi cyn lleied â phosib o ddifrod i'r amgylchedd. Ein nod yw sicrhau bod yr holl adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn foesebol.

Polisi Iaith Gymraeg

Yn ein gwaith beunyddiol 'rydym yn ceisio bod mor ddwyieithog â phosib, ac yn trin yr iaith Saesneg a'r iaith Gymraeg mewn modd cyfartal cyn belled a bo hynny'n briodol yn yr amgylchiadau, ac yn rhesymol ymarferol.